# INSTITUTE AND WAR MEMORIAL

England & Wales · Charity number 702845

## Details

| | |
|---|---|
| Other names | NEUADD GOFFA YSBYTY IFAN |
| Status | Registered |
| Legal form | Other |
| Registered | 1990-05-04 |
| Register | View on the Charity Commission register |

## Contact

| | |
|---|---|
| Address | Llafar y lli<br>7 Rhes fawr<br>Ysbyty Ifan<br>Betws y Coed<br>Betws y Coed<br>Conwy<br>LL24 0NP |
| Phone | 01690770116 |
| Email | neuaddgoffayi@gmail.com |
| Website | www.conwy.gov.uk |

## Activities

**Objects:** 1. THE PROVISION AND MAINTENANCE OF AVILLAE HALL FOR THE USE OF THE INHABITANTS OF THE COMMUNITY OF THE BENEFICIAL AREA WITHOUT DESTINCTION OF POLITICAL, RELIGIOUS OR OTHER OPINIONS, INCLUDING USE FOR MEETINGS, LECTURES AND CLASSES, AND FOR OTHER FORMS OF RECREATION AND LEISURE-TIME OCCUPATION, WITH THE OBJECT OF IMPROVING THE CONDITIONS OF LIFE FOR THE SAID INHABITANTS. 2. THE UPKEEP AND REPAIR OF A WAR MEMORIAL.

**Activities:** our aim is to serve the community, young people, older people, school, education teach people to comunicate, and social events

Downloaded from opencharities.uk/ew/702845

## Classification

- **How:** Provides Buildings/facilities/open Space, Provides Services
- **What:** General Charitable Purposes, Education/training, Religious Activities, Arts/culture/heritage/science, Amateur Sport, Animals, Environment/conservation/heritage, Economic/community Development/employment, Armed Forces/emergency Service Efficiency, Recreation
- **Who:** Children/young People, Elderly/old People, People With Disabilities, Other Charities Or Voluntary Bodies, The General Public/mankind

## Geography

- **Area of benefit:** YSBYTY IFAN
- Conwy

## Finances

| Period end | Income | Expenditure | Assets | Employees |
|---|---|---|---|---|
| 2025-03-31 | £60,465 | £66,211 | - | - |
| 2024-03-31 | £2,599 | £6,072 | - | - |
| 2023-03-31 | £2,503 | £4,549 | - | - |
| 2022-03-31 | £1,372 | £2,385 | - | - |
| 2021-03-31 | £12,502 | £2,538 | - | - |

Downloaded from opencharities.uk/ew/702845

## Trustees

| Name | Role | Appointed |
|---|---|---|
| **NERYS ELLIS** | Chair | |
| ALUN EDNYFED DAVIES | | |
| Awel Jones | | 2025-09-03 |
| Beca Glyn | | 2021-04-01 |
| Bethan Trenchard | | 2021-04-01 |
| Catrin Jones | | 2024-11-11 |
| Dafydd Jones | | 2018-01-10 |
| ELERI ROBERTS | | |
| Eirian Evans | | 2018-01-10 |
| Eleri Jones | | 2024-05-01 |
| Ffion Ellis | | 2026-01-13 |
| Greta Jones | | 2021-04-01 |
| Hafwen Thomas | | 2021-04-01 |
| Rhodri Owen | | 2024-01-01 |
| SHAN ELLIS | | |
| Sioned Williams | | 2021-04-01 |
| Yvonne Davies | | 2024-11-11 |

Downloaded from opencharities.uk/ew/702845

# Accounts

**Neuadd Goffa Ysbyty Ifan**

**Rhif yr Elusen: 702845**


# Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolwyr Elusen ar gyfer Neuadd Goffa Ysbyty Ifan

| | | |
|---|---|---|
| **1.1** | **Enw** | Institute and War Memorial<br>Neuadd Goffa Ysbyty Ifan (Enw Gwaith) |
| **1.2** | **Rhif Cofrestru** | 702845 |
| **1.3** | **Cyfeiriad** | Llafar y Lli, 7 Rhes Fawr, Ysbyty Ifan, Betws y Coed Conwy. LL24 0NP |

**1.4 Enwau Ymddiriedolwyr**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Alun Ednyfed Davies | 10 | Greta Glyn Jones |
| 2 | Awel Jones | 11 | Hafwen Thomas |
| 3 | Beca Glyn Jones | 12 | Nerys Ellis |
| 4 | Bethan Trenchard | 13 | Rhodri Owen |
| 5 | Catrin Jones | 14 | Shân Ellis |
| 6 | Dafydd Jones | 15 | Sioned Williams |
| 7 | Eirian Evans | 16 | Ffion Ellis |
| 8 | Eleri Jones | 17 | Yvonne Davies |
| 9 | Eleri Roberts | | |

## 2.1 Strwythur Pwyllgor Neuadd Goffa Ysbyty Ifan



## 2.2 Manylion ynghylch sut mae'r elusen yn cael ei rheoli, gan gynnwys sut y mae'n recriwtio ymddiriedolwyr

Caiff yr elusen ei rheoli gan y swyddogion a enwebir ac a etholir yn ystod y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol. Ar ôl hynny, caiff pob penderfyniad gweithredol ei drafod a'i gymeradwyo mewn cyfarfodydd misol o'r Pwyllgor.

Mae un a'r ddeg sefydliad neu glwb a enwir yn y Cyfansoddiad ac sy'n defnyddio'r Neuadd yn rheolaidd yn penodi cynrychiolydd i eistedd ar y Pwyllgor. Yn ogystal, mae unigolion o'r gymuned yn cael eu hethol yn y Cyfarfod Blynyddol i fod yn Aelodau o'r Pwyllgor. Os bydd llefydd gwag ar y Pwyllgor gall y Pwyllgor gyfethol hyd at ddau berson i weithredu fel ymddiriedolwyr yr elusen. Mae'r trefniant hwn yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cynnwys trawstoriad cynrychioliadol o'r gymuned leol, ac mae hynny'n cyfrannu at reolaeth deg, agored ac effeithiol o'r elusen.

## 3. Gweithgareddau ac amcanion yn ystod y flwyddyn

### 3.1 Defnydd y Neuadd

a) Croesawyd ystod eang o grwpiau a sefydliadau lleol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys clybiau ieuenctid, grwpiau ffitrwydd, dosbarthiadau addysgol, clwb henoed a gweithgareddau cymdeithasol.

b) Cynhaliwyd digwyddiadau cymunedol rheolaidd megis ffeiriau, brecwast, noson dramâu, te prynhawn, cyngherddau, sesiynau coffi a digwyddiadau codi arian.

### 3.3 Gwirfoddoli a Chyfranogiad

a) Cefnogir y Neuadd gan dîm gweithgar o wirfoddolwyr sy'n cynorthwyo gyda chynnal a chadw, glanhau, trefnu digwyddiadau a chodi arian.

b) Sicrheir cyfranogiad eang drwy gael cynrychiolwyr o un a'r ddeg clwb a sefydliad sy'n defnyddio'r Neuadd i eistedd ar y Pwyllgor.

### 3.4 Cynnal a Chadw a Gwelliannau

a) Cyflawnwyd gwaith cynnal a chadw hanfodol i sicrhau bod y Neuadd yn ddiogel ac yn addas i'w defnyddio.

b) Yn ogystal, bu paratoi a chynllunio ar gyfer prosiectau gwelliant mwy, megis gwaith ar y llawr, ffenestri, to, inswleiddio ac adnewyddu'r tu allan.

### 3.5 Codi Arian a cheisio am Grantiau

a) Trefnwyd digwyddiadau codi arian lleol i gefnogi costau rhedeg a chynnal y Neuadd.

b) Paratowyd a chyflwynwyd ceisiadau grant i gefnogi prosiectau cyfalaf a datblygiadol.

### 3.6 Effaith ar y Gymuned

a) Darperir lleoliad canolog sy'n galluogi pobl i gwrdd, dysgu, cadw'n heini, cymdeithasu, a lleihau unigrwydd.

b) Cryfheir cysylltiadau cymunedol drwy greu lle sy'n cael ei redeg gan y gymuned, er budd y gymuned.

### 3.7 Amcanion yr Elusen

3.8 Amcanion cyffredinol y Neuadd Goffa ydi:

a) Cefnogi a datblygu'r Neuadd Gymunedol fel canolfan weithgarwch i'r gymuned leol.
b) Darparu lle diogel, hygyrch ac o ansawdd i grwpiau cymdeithasol, addysgol a diwylliannol.
c) Hyrwyddo cydlyniad cymunedol drwy annog cyfranogiad eang gan bobl o bob oed a chefndir.
d) Sicrhau bod y Neuadd yn cael ei chynnal a'i gwella er budd presennol ac at y dyfodol.

3.9 Yr amcanion penodol ar gyfer y flwyddyn oedd:

a) Cwblhau gwelliannau i'r toiledau, toeau gwastad, y gegin a'r cyntedd trwy grant o Gronfa Allweddol Adfywio Cymunedol Conwy UKSPF a ariannwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig drwy Gronfa Ffyniant Cyffredin y Deyrnas Unedig.
b) Ystyried ceisiadau grant i alluogi gwelliannau pellach
c) Cynnal ystod eang o weithgareddau, cyfarfodydd a digwyddiadau yn y Neuadd.

## 4. Cyflawniadau a perfformiad, gan gynnwys budd cyhoeddus

### 4.1 Cyflawniadau a perfformiad

Yn ystod y flwyddyn, mae'r elusen wedi parhau i gyflawni ei hamcanion drwy ddarparu lle diogel, hygyrch a chynhwysol i'r gymuned leol. Mae'r Neuadd wedi bod yn ganolbwynt gweithgarwch cymdeithasol, addysgol a diwylliannol, gan gynnal ystod eang o weithgareddau sy'n ategu anghenion ac uchelgeisiau trigolion yr ardal.

### 4.2 Defnydd a Gweithgarwch y Neuadd.

Cynhaliwyd nifer sylweddol o ddosbarthiadau, cyfarfodydd, gweithdai a digwyddiadau cymunedol drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Neuadd wedi darparu cartref i glybiau a sefydliadau lleol, gan gynnwys grwpiau ieuenctid, clybiau ffitrwydd, grwpiau cymdeithasol ac ymarferion diwylliannol. Mae'r defnydd cyson hwn yn dangos bod y Neuadd yn parhau i fod yn adnodd gwerthfawr ac yn asgwrn cefn i fywyd cymunedol.

### 4.3 Cryfhau Cydlyniant Cymunedol

Trwy gynnal digwyddiadau agored a gweithgareddau hygyrch, mae'r elusen wedi helpu i leihau unigrwydd ac ynysigrwydd, yn enwedig ymhlith pobl hŷn a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Mae'r Pwyllgor, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o un ar ddeg clwb a sefydliad sy'n defnyddio'r Neuadd, wedi sicrhau bod penderfyniadau'n adlewyrchu anghenion gwirioneddol y gymuned, ac mae'r trefniant hwn wedi cryfhau ymdeimlad o berchnogaeth leol ac wedi annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn gwirfoddoli a llywodraethu.

### 4.4 Codi Arian a Chynaliadwyedd

Trefnwyd nifer o ddigwyddiadau codi arian llwyddiannus, gan gynnwys ffeiriau, nosweithiau cymdeithasol a gweithgareddau tymhorol, ac mae'r incwm a godwyd wedi cyfrannu'n uniongyrchol at gostau rhedeg y Neuadd a gwaith cynnal a chadw hanfodol. Paratowyd ceisiadau grant llwyddiannus i gefnogi prosiectau gwelliant, gan gynnwys gwaith ar y to, toiledau, cegin a mynedfa y Neuadd, sydd wedi gwella edrychiad gweledol ac effeithlonrwydd ynni y Neuadd.

## 4.5 Gwelliannau i'r Cyfleusterau

Cyflawnwyd gwaith cynnal a chadw rheolaidd i sicrhau bod y Neuadd yn ddiogel ac yn addas i'w defnyddio gan bob grŵp, a bu'r Pwyllgor yn dechrau cynllunio ar gyfer prosiectau cyfalaf mwy, gyda'r nod o wella cynaliadwyedd tymor hir a lleihau costau ynni.

## 4.6 Budd Cyhoeddus

Mae'r elusen wedi dangos budd cyhoeddus clir drwy:

a) Ddarparu lle hygyrch i bobl o bob oed a chefndir.
b) Hyrwyddo iechyd, lles a chydlyniad cymunedol.
c) Cefnogi gweithgareddau sy'n gwella sgiliau, hyder a chyfleoedd cymdeithasol.
d) Sicrhau bod y Neuadd yn cael ei rhedeg er budd y gymuned gyfan, nid er elw.

Mae'r gwaith hwn yn dangos yn glir sut mae'r elusen wedi cyflawni ei hamcanion elusennol a gwneud cyfraniad cadarnhaol i fywyd cymunedol yn ystod y flwyddyn.

# 5. Adolygiad ariannol gan gynnwys unrhyw ddyledion a manylion polisi wrth gefn

## 5.1 Trosolwg o Incwm a Gwariant

Yn ystod y flwyddyn, mae'r elusen wedi cynnal sefyllfa ariannol sefydlog drwy gyfuniad o incwm o logi'r Neuadd, digwyddiadau codi arian a grantiau. Mae'r incwm hwn wedi galluogi'r Pwyllgor i dalu costau rhedeg y Neuadd, cynnal a chadw hanfodol, ac i gynllunio ar gyfer prosiectau gwelliant yn y dyfodol.

## 5.2 Prif ffynonellau incwm:

a) Llogi'r Neuadd i glybiau, sefydliadau a digwyddiadau preifat
b) Digwyddiadau codi arian lleol
c) Rhoddion gan aelodau'r gymuned
d) Grantiau a cheisiadau cyllid penodol

## 5.3 Prif wariant:

a) Costau rhedeg megis gwres, trydan, dŵr ac yswiriant
b) Gwaith cynnal a chadw a thrwsio
c) Pryniant offer ar gyfer y gwelliannau, megis offer cegin
d) Gwariant grantiau i adnewyddu y to, toiledau, cegin a mynedfa.

## 5.4 Dyledion

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, nid oedd gan yr elusen unrhyw ddyledion sylweddol nac ymrwymiadau ariannol hirdymor.  Roedd unrhyw gostau rhedeg arferol (megis biliau cyfleustodau neu waith cynnal a chadw bach) wedi'u talu'n brydlon ac nid oedd unrhyw falansau heb eu setlo. Mae'r Pwyllgor yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol y Neuadd yn ofalus i sicrhau nad yw'r elusen yn cymryd risgiau diangen.

# 6. Manylion am unrhyw gronfeydd sy'n cael eu dal fel ymddiriedolwr gwarchod

Amherthnasol.

# MANTOLEN NEUADD GOFFA YSBYTY IFAN 31 MAWRTH 2024 - 31 MAWRTH 2025

## DERBYNIADAU

| | |
|---|---|
| CFFI Ysbyty Ifan | £50.00 |
| Eirian Evans Lluniau | £330.00 |
| Cyngor Conwy Grant | £42,267.68 |
| Cyngor Conwy Grant | £13,168.00 |
| Chwist | £150.00 |
| Ffair Dolig | £282.70 |
| Cae Chwarae | £688.87 |
| Conwy | £162.51 |
| Taith Tractors | £535.00 |
| Capel Seion | £245.00 |
| Hafan Ifan | £50.00 |
| Conwy | £120.00 |
| UAC | £30.00 |
| Cyneifio Corwen | £100.00 |
| Sioe Llanrwst | £30.00 |
| Rhodri Llais y Lle | £600.00 |
| Conwy safle pledleisio | £120.00 |
| Dramau Cerrig 2024 | £124.00 |
| Dramau Cerrig 2025 | £420.00 |
| Cinio Gwyl Dewi | £992.00 |
| Cyfanswm | £60,465.76 |
| Balans Cyfri Cyfredol 31 Mawrth 2024 | £12,396.98 |
| **Cyfanswm** | **£72,862.74** |

## TALIADAU

| | |
|---|---|
| Cartel Catering | £660.00 |
| Geraint Trydan | £3,194.14 |
| Iolo Ellis | £46,884.49 |
| Costau Banc | £82.82 |
| Scottish Power | £1,635.33 |
| NFU | £1,813.11 |
| Olew Dros Cymru | £2,058.00 |
| Eirian, Paent gegin | £48.90 |
| Popty ping, Currys | £199.00 |
| Leino ir gegin | £315.00 |
| Ifan Pyrs Plymio | £1,128.41 |
| Cais Cynllunio, Parc | £230.00 |
| Rs Safety | £93.96 |
| Anrheg Diolch | £43.77 |
| Trwsio piano | £107.00 |
| Vale Consulting | £900.00 |
| Tai Hirion, Trwsio Sbyty Fan | £280.70 |
| Cartel Catering | £6,232.73 |
| Article Nine | £225.00 |
| Dwr Cymru | £79.34 |
| Cyfanswm | £66,211.70 |
| Balans Cyfri Cyfredol 31 Mawrth 2025 | £6,651.04 |
| | **£72,862.74** |

MANTOLEN NEUADD GOFFA YSBYTY IFAN 31 MAWRTH 2024 - 31 MAWRTH 2025

## DERBYNIADAU

| | |
|---|---|
| CFFI Ysbyty Ifan | £50.00 |
| Eirian Evans Lluniau | £330.00 |
| Cyngor Conwy Grant | £42,267.68 |
| Cyngor Conwy Grant | £13,168.00 |
| Chwist | £150.00 |
| Ffair Dolig | £282.70 |
| Cae Chwarae | £688.87 |
| Conwy | £162.51 |
| Taith Tractors | £535.00 |
| Capel Seion | £245.00 |
| Hafan Ifan | £50.00 |
| Conwy | £120.00 |
| UAC | £30.00 |
| Cyneifio Corwen | £100.00 |
| Sioe Llanrwst | £30.00 |
| Rhodri Llais y Lle | £600.00 |
| Conwy safle pledleisio | £120.00 |
| Dramau Cerrig 2024 | £124.00 |
| Dramau Cerrig 2025 | £420.00 |
| Cinio Gwyl Dewi | £992.00 |
| Cyfanswm | £60,465.76 |
| Balans Cyfri Cyfredol 31 Mawrth 2024 | £12,396.98 |
| **Cyfanswm** | **£72,862.74** |

## TALIADAU

| | |
|---|---|
| Cartel Catering | £660.00 |
| Geraint Trydan | £3,194.14 |
| Iolo Ellis | £46,884.49 |
| Costau Banc | £82.82 |
| Scottish Power | £1,635.33 |
| NFU | £1,813.11 |
| Olew Dros Cymru | £2,058.00 |
| Eirian, Paent gegin | £48.90 |
| Popty ping, Currys | £199.00 |
| Leino ir gegin | £315.00 |
| Ifan Pyrs Plymio | £1,128.41 |
| Cais Cynllunio, Parc | £230.00 |
| Rs Safety | £93.96 |
| Anrheg Diolch | £43.77 |
| Trwsio piano | £107.00 |
| Vale Consulting | £900.00 |
| Tai Hirion, Trwsio Sbyty Fan | £280.70 |
| Cartel Catering | £6,232.73 |
| Article Nine | £225.00 |
| Dwr Cymru | £79.34 |
| Cyfanswm | £66,211.70 |
| Balans Cyfri Cyfredol 31 Mawrth 2025 | £6,651.04 |
| | £72,862.74 |

Archwiliwyd a chafwyd yn gywir

Nia Jones.

23.1.2026.